



# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cydweithfa Cartrefi Cymru Gwent**

**Cartrefi Cymru  
Heol y Felin  
Pontnewynydd  
Pont-y-pŵl  
NP4 6NG**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

**Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad**

14/03/2024

**Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.**

Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: [psi@nationalarchives.gsi.gov.uk](mailto:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk)

Rhaid i chi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir a phaidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

# Cydweithfa Cartrefi Cymru Gwent

Y math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth Cymorth Cartref
Darparwr Cofrestredig	Cydweithfa Cartrefi Cymru Cyf
Lleuedd cofrestredig	0
Iaith y gwasanaeth	Y ddwy
Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	
Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru?	Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio.

## Crynodeb

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth da gan Gydweithfa Cartrefi Cymru Gwent. Caiff y bobl eu trin ag urddas a pharch drwy ddulliau gofal a chymorth sydd wedi'u personoli.

Mae'r bobl yn hapus â'r cymorth y maent yn ei gael ac mae'r gwasanaeth yn ymgynghori â nhw ynghylch eu gofal. Mae gan y bobl reolaeth dros eu bywydau a gallant wneud eu dewisiadau eu hunain gymaint â phosibl. Mae'r cymorth a ddarperir yn galluogi'r bobl i gynnal a gwella eu hannibyniaeth a'u sgiliau domestig, a mwynhau bywyd cymunedol. Mae'n amlwg bod y staff yn adnabod y bobl y maent yn gofalu amdanynt yn dda, yn ogystal â'u hoffterau a'u dewisiadau.

Mae gan y staff cymorth wybodaeth gyfredol am anghenion y bobl; mae cynlluniau personol manwl ar gael i lywio'r staff. Mae systemau ar waith ar gyfer rheoli a storio meddyginiaethau. Mae'r gwasanaeth yn sicrhau bod staff yn cael eu recriwtio mewn ffordd ddiogel ac effeithiol.

Mae'r gwasanaeth yn cael ei reoli'n dda ac mae'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u gwerthfawrogi yn eu rolau. Mae'r staff cymorth yn cael eu goruchwylio ac yn cael hyfforddiant rheolaidd. Mae systemau llywodraethu a sicrhau ansawdd ar waith. Mae'r tîm rheoli a'r Unigolyn Cyfrifol yn hawdd mynd atynt ac yn weladwy wrth iddynt redeg y gwasanaeth.

## Llesiant

Mae'r bobl yn helpu i lywio'r gwasanaeth y maent yn ei gael am fod y rheolwyr a'r staff cymorth yn rhoi blaenoriaeth i'w safbwyntiau, eu hanghenion a'u dymuniadau. Mae cynlluniau gofal personol yn tynnu sylw at gryfderau, dewisiadau a nodau personol y bobl. Caiff y bobl anogaeth gadarnhaol i gymryd rhan mewn gweithgareddau buddiol ac ystyrlon a chânt eu hannog i gynnal bywyd cymdeithasol gweithgar. Mae'r gweithwyr cymorth yn anogol ac yn garedig ac maent ar gael i helpu'r bobl i wneud yr hyn y maent am ei wneud. Mae'r bobl bob amser yn cael gofal a chymorth o safon dda sy'n gwella eu llesiant emosiynol a chorfforol. Mae'r gweithwyr cymorth yn cynnig sicrwydd ac yn dathlu cyflawniadau'r bobl, sy'n helpu i fagu eu hyder.

Mae'r gwasanaeth yn gwneud pob ymdrech i helpu'r bobl i ddeall eu hawliau. Mae manylion am y gwasanaeth ar gael mewn datganiad o ddiben a chanllaw ysgrifenedig. Caiff gwybodaeth ei chyflwyno mewn modd ystyriol, sy'n galluogi'r bobl i fynegi eu hunain a gwneud dewisiadau ar sail gwybodaeth. Mae amrywiaeth o gyfleoedd ffurfiol ac anffurfiol ar gael i'r bobl fynegi eu barn a'u safbwyntiau. Cadarnhaodd y bobl y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn cael dewisiadau a bod y staff yn gwrando arnynt. Mae trefniadau ar waith i oruchwylio'r gwasanaeth yn effeithiol a chaiff barn y bobl ei defnyddio er mwyn datblygu a gwella'r gwasanaethau'n barhaus.

Mae'r staff cymorth yn rhoi gymaint o reolaeth i'r bobl dros eu bywydau â phosibl. Maent yn helpu'r bobl i ddysgu am eu hawliau ac yn eu hannog i wneud penderfyniadau ynghylch ble a sut i dreulio eu hamser.

Mae gwasanaethau meddygol ac arbenigol ar gael i'r bobl i hybu eu hiechyd a'u llesiant. Mae'r gwasanaeth yn cydgysylltu â gweithwyr iechyd proffesiynol er mwyn cyfeirio unrhyw bryderon ac yn dilyn canllawiau priodol. Mae'r bobl wedi datblygu cydberthnasau da â'r staff cymorth y maent yn eu hadnabod yn dda ac mae hyn yn helpu i gefnogi llesiant ac iechyd emosiynol y bobl. Roedd y rhyngweithio a welsom rhwng y bobl, y staff cymorth a'r tîm rheoli yn gadarnhaol ac yn ddoniol. Mae prosesau ar waith i reoli meddyginiaeth y bobl a sicrhau eu bod yn cael pob meddyginiaeth ar bresgripsiwn yn unol â'r cyfarwyddiadau.

Mae systemau ar waith er mwyn helpu i ddiogelu'r bobl rhag niwed. Caiff unrhyw risgiau a nodir i'r bobl eu rheoli a'u monitro fel bod y bobl yn cael eu cefnogi i aros yn ddiogel, a chaiff eu rhyddid ei barchu. Mae'r staff hefyd yn dilyn polisiâu a gweithdrefnau clir a chyfredol. Mae'r bobl yn gwybod sut i roi gwybod am unrhyw bryderon a all fod ganddynt. Mae'r staff yn glir am eu cyfrifoldebau diogelu. Maent yn gwybod beth i'w wneud os ydynt yn poeni am rywun, maent yn gyfarwydd â'r mathau o gamdriniaeth a dangosyddion camdriniaeth a gwnaethant ddweud wrthym ba gamau y byddent yn eu cymryd. Dywedodd y staff eu bod yn teimlo'n hyderus i roi gwybod am unrhyw bryderon a'u bod yn teimlo y byddai'r gwasanaeth yn gwrando arnynt ac yn cymryd camau gweithredu. Caiff hawliau pobl na allant wneud penderfyniadau ynghylch eu gofal eu diogelu.

## Gofal a Chymorth

Mae'r gwasanaeth yn darparu gofal a chymorth o safon dda sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae hyn yn golygu bod y bobl yn cael gwasanaeth sydd wedi'i gynllunio'n benodol i ddiwallu eu hanghenion unigol. Mae'r staff cymorth yn sylwgar ac yn darparu lefelau priodol o anogaeth a chymorth wrth ymateb i anghenion y bobl, gan ddangos cynhesrwydd a thosturi gwirioneddol. Mae'r bobl yn ymddangos yn gyfforddus ac yn gartrefol ym mhresenoldeb y staff. Maent yn gwrandao ar y bobl ac yn eu helpu i wneud cynnydd drwy gynnig sicrwydd a chanmoliaeth. Mae'r bobl y gwnaethom siarad â nhw yn teimlo'n gadarnhaol am y gwasanaeth y maent yn ei gael ac yn canmol y staff cymorth a'r tîm rheoli.

Mae'r cynlluniau personol wedi'u teilwra i'r unigolion dan sylw ac maent yn rhoi trosolwg manwl o bwy yw'r bobl a beth sy'n bwysig iddynt. Mae'r cynlluniau yn cynnwys gwybodaeth am y ffordd orau i'r staff gefnogi unigolion. Mae'r cynlluniau yn cofnodi diddordebau, arferion a dewisiadau cymorth y bobl yn glir. Mae'r gwasanaeth yn gweithio'n agos gyda theuluoedd y bobl a gweithwyr proffesiynol eraill er mwyn sicrhau bod ganddynt y wybodaeth gywir i gefnogi'r bobl. Bydd y bobl sy'n cael cymorth sesiynol hefyd yn cael cynllun gofal, a fydd yn cynnwys canllawiau clir i'r staff eu dilyn wrth gefnogi pobl yn y gymuned. Mae asesiadau risg ar waith sy'n ymdrin â meysydd sy'n benodol i anghenion yr unigolyn ac maent yn rhoi canllawiau i'r staff ynghylch sut y gallant helpu'r bobl yn ddiogel i gyflawni eu nodau. Lle bo cyfyngiadau angenrheidiol ar waith er budd pennaf y bobl i'w cadw'n ddiogel, maent yn ymddangos yn gymesur. Cynhelir adolygiadau rheolaidd. Mae cofnodion dyddiol yn cael eu cadw o'r cymorth a ddarperir, sy'n rhoi gwybodaeth bwysig am gynnydd y bobl ac yn nodi newidiadau o ran eu hanghenion gofal.

Gall y bobl ddefnyddio'r gwasanaethau iechyd sydd eu hangen i gynnal eu hiechyd a'u llesiant. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau meddyg teulu. Gwelsom fod unigolion wedi cael eu hatgyfeirio at weithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill yn ôl yr angen. Mae'r staff yn rhyngweithio â'r bobl mewn ffordd garedig, gyfeillgar, naturiol a thosturiol. Mae'n amlwg bod y staff yn adnabod y bobl y maent yn gofalu amdanynt yn dda a'u bod yn sylwi ar unrhyw newidiadau yn eu hiechyd a'u llesiant yn gyflym. Mae systemau ar waith ar gyfer rheoli a storio meddyginiaethau. Caiff meddyginiaeth ei storio'n ddiogel. Mae'r staff yn cael hyfforddiant meddyginiaeth a chaiff eu cymhwysedd i roi meddyginiaeth ei wirio. Nid oes unrhyw wallau yn y Cofnodion Rhoi Meddyginiaeth (MAR). Caiff meddyginiaeth ei gwirio a'i harchwilio'n rheolaidd.

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth o ansawdd uchel sy'n gwella eu llesiant meddyliol a chorfforol. Mae'r gwasanaeth yn canolbwyntio ar gryfderau'r bobl ac yn dod o hyd i ffyrdd arloesol o'u helpu i ffynnu. Mae'r gweithwyr cymorth yn helpu'r bobl i gynnal cydberthnasau diogel a chadarnhaol, fel y gallant fwynhau cymdeithasu â theulu a ffrindiau. Caiff y bobl eu hannog i ddatblygu cysylltiadau cymunedol drwy ymweld yn rheolaidd â lleoedd o ddiddordeb a mynd i ddigwyddiadau amrywiol. Mae'r gweithwyr cymorth yn gwybod beth y

gall y bobl ei wneud drostynt eu hunain, a chaiff hyn ei adlewyrchu yn eu cynlluniau personol.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Gall y bobl fod yn hyderus eu bod yn cael eu cefnogi gan ddarparwr sy'n dangos ymrwymiad i ddarparu gofal a chymorth o ansawdd. Gwelsom fod trefniadau llywodraethu cadarn ar waith yn y gwasanaeth. Mae'r rhain yn helpu'r gwasanaeth i hunanwerthuso ac i nodi ble y mae angen gwneud gwelliannau. Mae'r datganiad o ddiben yn nodi'n glir yr hyn y gall y bobl ei ddisgwyl gan y gwasanaeth ac mae'r gwasanaeth yn adlewyrchu ei gynnwys. Mae amrywiaeth o bolisiâu a gweithdrefnau cynhwysfawr ar waith er mwyn helpu i ddarparu gofal a chaiff y rhain eu hadolygu'n gyson.

Mae adroddiadau ar gael sy'n dangos bod yr Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd. Maent yn dangos trafodaethau â'r bobl sy'n derbyn gwasanaeth a'r staff cymorth ac yn nodi unrhyw feysydd i'w gwella. Caiff adroddiadau ar ansawdd y gofal eu llunio'n rheolaidd. Mae'r Unigolyn Cyfrifol a'r tîm uwch-reolwyr yn monitro ansawdd y gwasanaeth yn fanwl. Mae'r system cadw cofnodion electronig yn eu galluogi i adolygu cofnodion gofal a digwyddiadau ar unrhyw adeg. Mae gan y gwasanaeth dîm rheoli gweladwy sy'n rhan o'r gwaith o redeg y gwasanaeth o ddydd i ddydd.

Mae'r gwasanaeth yn sicrhau bod staff yn cael eu recriwtio, eu sefydlu, eu cefnogi a'u hyfforddi mewn ffordd ddiogel ac effeithiol. Mae trefniadau dethol a fetio addas ar waith i alluogi darparwr y gwasanaeth i wneud penderfyniadau wrth benodi staff. Mae tystiolaeth o wiriadau cyn cyflogi ar gael. Caiff hanes cyflogaeth ei archwilio'n fanylach yn y dyfodol. Gofynnir am eirdaon sy'n sicrhau bod staff unigol yn addas i weithio yn y gwasanaeth. Mae gan bob aelod o'r staff wiriadau cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a phrawf adnabod.

Mae'r staff yn cwblhau rhaglen sefydlu lle maent yn cysgodi staff profiadol ac yn treulio amser yn dod i adnabod y bobl. Maent yn cwblhau amrywiaeth eang o hyfforddiant, gan gynnwys hyfforddiant arbenigol a hyfforddiant wedi'i deilwra. Mae'r cofnodion goruchwylio'n cadarnhau bod y mwyafrif o'r staff wedi cael eu goruchwylio yn ystod y ddau fis diwethaf. Mae angen i'r gwasanaeth sicrhau y caiff amledd a chysondeb y sesiynau goruchwylio ffurfiol eu sefydlu a'u cynnal yn y dyfodol. Mae cofnodion hyfforddiant yn dangos bod y staff wedi cael hyfforddiant craidd cyfredol. Caiff y staff cymorth fynychu cyfarfodydd tîm rheolaidd er mwyn trafod y ffordd y caiff y gwasanaeth ei redeg a chynnydd y bobl y maent yn eu cefnogi.

### Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio

Statws	Ystyr pob un
<b>Newydd</b>	Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn.
<b>Adolygwyd</b>	Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf.
<b>Heb Gyflawni</b>	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni.
<b>Cyflawnwyd</b>	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni.

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

### Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

### Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G
36	Nid yw'r gweithwyr gofal yn cael eu cefnogi a'u goruchwyllo'n rheolaidd.	Cyflawnwyd
58	Roedd y cofnodion o'r meddyginiaethau a roddwyd yn anghyson ac yn ddryslyd, nid oedd dyddiadau agor wedi'u cofnodi ar gyfer meddyginiaeth hylifol.	Cyflawnwyd



## **A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- [Arolwg adroddiadau arolygu](#)

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n [tudalen Arolygon adborth](#).

**Dyddiad Cyhoeddi 19/04/2024**